

## **Mewn Cymeriad**

Cafodd dosbarthiadau Ogwen, Ffrydlas a Thryfan wledd pan ddaeth cwmni ‘Mewn Cymeriad’ i ymweld â’r ysgol eto eleni, y tro hwn gyda chymeriad Mari Jones. Cafodd y plant fodd i fyw yn chwarae rolau amrywiol a dysgu am y Gymraes sydd wedi gadael ôl ei throed ledled y byd drwy gerdded o Lanfihangel-y-Pennant i’r Bala. Sioe bywiog a diddorol a roddodd bleser mawr i’r plant.

## **Llongyfarchiadau!**

Llongyfarchiadau mawr i Lola Townsend a fu’n cystadlu yn ddiweddar yn Gala Nofio Genedlaethol yr Urdd, yng Nghaerdydd. Cafodd enillwyr y rowndiau rhanbarthol eu gwahodd i Gaerdydd er mwyn cystadlu yn erbyn enillwyr y rhanbarthau eraill. Perfformiodd Lola yn arbennig a chafodd ganlyniad bendigedig.

## **Cynhadledd Siarter Iaith**

Yn ddiweddar bu cynhadledd arbennig yng Nghanolfan Glasdir, Llanrwst er mwyn lansio’r Siarter Iaith i ysgolion cynradd Conwy, Dinbych, Wrecsam a Flint. Mae’r ysgol wedi bod yn rhan o gynllun ers y dechrau ac oherwydd llwyddiant a brwdfrydedd yr ysgol gwahoddwyd Mrs Alison Halliday a rhai o ddisgyblion yr ysgol i rannu ein harferion. Rhoddodd Mrs Alison Halliday gyflwyniad anhygoel i’r sawl a fynychodd y gynhadledd. Perfformiodd Esther, Acacia, Asha, Jac a Cai yn arbennig wrth gyd-ganu anthem y Siarter Iaith a rapio gydag eraill, da iawn chi!

## **Castell Dolbadarn a Chaernarfon**

Bu dosbarth Tryfan blwyddyn 3 Mr Walton yn mwynhau taith ganol oesol yn ddiweddar wrth ymweld â chestyll Caernarfon a Dolbadarn. Cafodd y plant y cyfle i wisgo dillad o’r cyfnod, crwydro’r cestyll a dysgu am hanes a helyntion Owain Glyndŵr, Edward Iaf a Llywelyn. Roedd yr ymweliad yn rhan o thema’r dosbarth ar gyfer yr hanner tymor yma sef ‘Cestyll a Dreigiau’. Cafwyd y cyfle i ateb nifer o gwestiynau diddorol a phwysig megis ‘Ble oedd y Brenin yn cael eistedd?’ ‘Beth oedd pobol bwysig y cestyll yn cael bwyta?’ a ‘Ble oedd y toiledau?’. Mae’r plant wedi mwynhau creu modelau 3D o gestyll a dreigiau yn ogystal â dysgu am y cyfnod hwn trwy sesiynau fel y sioe Owain Glyndŵr gan gwmni ‘Mewn Cymeriad’. Pleser oedd gweld Glyndŵr yn annerch y dorf a floeddiodd bod Cymru yn rhydd! Mae nifer o luniau a fideos o’r gweithgareddau yma ar ein tudalen Trydar @ysgoltregarth.

## **Cynllun Beicio Sustrans**

Daeth Gwen Thomas atom i sôn am gynllun ‘Sustrans’. Mae’r cynllun hwn yn ceisio annog mwy o ddisgyblion i gerdded, beicio neu ddod i’r ysgol ar eu sgwter. Cafwyd gwasaneth yn egluro beth yw’r cynllun ac roedd y disgyblion i gyd yn ymateb yn gadarnhaol ac i weld yn awyddus i geisio lleihau’r defnydd o geir. Mae’n fwriad gan yr ysgol fod yn rhan o’r cynllun a bydd gweithgaredd ar y gweill ganddom yn y dyfodol agos.

## **Cystadlu**

Bu tîm pêl-rwyd Dosbarth Ogwen yn cystadlu yng nghystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd yn ddiweddar. Dyma'r tro cyntaf i'r plant gymryd rhan yn y gystadleuaeth ac roedd yn brofiad gwerth chweil iddynt. Gweithiodd y plant yn arbennig o dda mewn tîm ac roeddent i gyd yn falch o gael cynrychioli'r ysgol a'r ysgol hefyd yn falch iawn ohonyn nhw. Da iawn chi!